# Adnodd Addysgol AR-LEIN

Hwb

http://hwb.cymru.gov.uk/

**Adnodd addysgol ar-lein sydd yn cael ei gefnogi a'i gyllido gan Lywodraeth Cymru ac ar gael i bob disgybl ysgol rhwng 3—18 oed yng Nghymru.**
**Mae'r adnodd yn rhad ac am ddim a'i nod yw rhoi mynediad i ddisgyblion i adnoddau safonol, megis Hwb+, Office365, J2e ac Encyclopaedia Britannica ar gyfer cefnogi eu gwaith ysgol. Yn ogystal, mae nifer o'r adnoddau yn hybu datblygiad llythrennedd a rhifedd digidol.**

## MYNEDIAD

Mae'r adnodd ar gael yn yr ysgol ac o gartref. Er mwyn defnyddio'r adnodd bydd angen mewngofnodi gydag enw defnyddiwr a chyfrinair — a fydd ar gael gan yr ysgol. Bydd angen dyfais gyfrifiadurol sydd â chysylltiad i'r Wê — PC, Gliniadur, Tabled ayyb

## Hwb+

Adnodd a fydd yn galluogi disgyblion i gynnal trafodaeth ar-lein, cynhyrchu BLOGs ar gyfer testunau penodol, ymateb i holiaduron a chreu wici dosbarth.

Hwb+ holiadur trafodaethau wici blog

## Encyclopaedia Britannica

Mynediad i Encyclopaedia Britannica ar-lein. Adnodd arbennig a diogel i ymchwilio am wybodaeth i gefnogi gwaith prosiect. Yn cynnwys lluniau *(Image Quest),* sain a chlipiau fideo.

Encyclopædia Britannica

## J2e

Just2easy Create • Share • Learn

Adnodd mwy penodol ar gyfer disgyblion cynradd a meithrin gydag adnoddau syml i ysgrifennu, paentio, graffio ac animeiddio.
O fewn y pecyn hwn mae adnodd Codio sydd yn addas ar gyfer disgyblion cynradd ac uwchradd.

## Microsoft Office 365

Microsoft® Office 365

Disgybl gyda mynediad i:-

- e-bost personol
- Word Online
- PowerPoint Online
- Excel Online
- 1Tb OneDrive—ardal i safio gwaith ysgol yn y cwmwl